



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**9 Gorffennaf 2021**

**9:00 am – 12:00 yp**

**Dros Zoom**

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Barry Argent, Bethan E Jones, Catrin Roberts, Cyng Bobby Feeley, Cyng Cheryl Carlisle, Cyng Christine Jones (yn bresennol tan 10:30am), Cyng Llinos Medi Huws (yn bresennol tan 10:40am), Delyth Lloyd-Williams, Estelle Hitchon, Fôn Roberts, Jenny Williams, John Gallanders, John Gladston, Lucy Reid, Mark Wilkinson, Meinir Williams-Jones, Neil Ayling (yn bresennol tan 10:30am), Nicola Stubbins, Rob Smith (yn bresennol 11:15am), Roma Hooper, Shan Lloyd Williams
Ymddiheuriadau:	Chris Stockport, Cyng Dafydd Meurig, Ffion Johnstone, Helen Corcoran, Jo Whitehead, Morwena Edwards, Paul Scott, Sam Parry, Steve Gadd, Teresa Owen, Dr Lowri Brown
Hefyd yn bresennol:	<p>Ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen:</p> <p>Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus (Comisiynydd Plant Cymru) Kirrin Davidson, Swyddog Polisi (Comisiynydd Plant Cymru) Craig Macleod, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir y Fflint Marian Parry Hughes, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Gwynedd Rhiain Morrille, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Ddinbych Mark Parry, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Anne Flanagan, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd ac Ymyrraeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Sharon Hinchcliffe, Rheolwr Busnes Rhanbarthol, Gwella Deilliannau i Blant, Tîm Cydweithio Rhanbarthol Marilyn Wells, Arweinydd Clinigol Rhanbarthol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Pennaeth Nyrsio – Ardal y Dwyrain CAMHS, Gwasanaethau Newro-ddatblygiadol ac Anabledd Dysgu Angela Wilson, Rheolwr Rhaglen, Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu, Cyngor Sir y Fflint Louise Bell, Cyfarwyddwr Rhanbarth Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, Canol, BIPBC Sara Hammond-Rowley, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol, Pennaeth Seicoleg Plant a Therapiau Seicolegol Gogledd Cymru, BIPBC</p> <p>Ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen:</p> <p>Alwen Williams, Cyfarwyddwr Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</p>

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<p><u>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</u> Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Gwnaed cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.</p>	
2.	<p><u>Comisiynydd Plant Cymru</u> Roedd Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru yn bresennol i drafod sut mae BPRhGC yn gweithredu'r argymhellion o fewn yr adroddiad Dim Drws Anghywir ac i drafod unrhyw heriau parhaus sy'n wynebu'r rhanbarth. Roedd BPRhGC eisoes wedi darparu ymateb ysgrifenedig i bob un o'r argymhellion cyn y cyfarfod.</p>	
3.	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC)</u> Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad gan AW ar gynnydd Bargen Dwf BUEGC ar gyfer Gogledd Cymru.</p> <p>Mae'r Fargen Dwf wedi'i datblygu drwy gydweithio agos ac ymrwymiad gan bartneriaid ar draws holl sectorau, gan gynnwys y DU a Llywodraeth Cymru i ddarparu buddsoddiad positif cryf a newid fydd yn galluogi twf economaidd a chyflogaeth yn yr hirdymor.</p> <p>Mae'r Fargen Dwf gyda buddsoddiad o £240miliwn dros y 10/15 mlynedd nesaf yn anelu i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddatblygu economi mwy bywiog, cynaliadwy a chadarn yng Ngogledd Cymru</li> <li>• I adeiladu ar ein cryfderau, i hybu cynhyrchiant tra'n mynd i'r afael â heriau hirdymor a rhwystrau economaidd i ddarparu twf cynhwysol.</li> <li>• Y dull yw hybu twf mewn ffordd raddol, gynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</li> <li>• Creu rhwng 3,400 – 4,200 net o swyddi ychwanegol</li> <li>• Cynhyrchu £2.0 - £2.5 biliwn net o werth ychwanegol gros</li> </ul> <p>Eglurodd AW sut byddai'r Fargen Dwf yn cael ei darparu ar draws 5 rhaglen:</p> <p><u>Rhaglen Ddigidol</u> - anelu i fynd i'r afael â'r meysydd anodd i fuddsoddi ynddynt yn fasnachol a datgloi twf ar gyfer meysydd blaenoriaeth a safleoedd allweddol yng Ngogledd Cymru</p> <p><u>Rhaglen Tir ac Eiddo</u> - anelu i fynd i'r afael â'r prinder tir ac eiddo ar gyfer twf allweddol, darparu safleoedd allweddol i'r farchnad ar gyfer buddsoddwyr a datblygwyr</p> <p><u>Rhaglen Ynni Carbon Isel</u> – anelu i ddatgloi buddion economaidd ynni carbon isel trawsnewidiol drwy amrywiol brosiectau yng Ngogledd Cymru.</p> <p><u>Arloesi o fewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel</u> – anelu i gydgrynhoi sefyllfa Gogledd Cymru fel sector gweithgynhyrchu pwerus ac arloesol drwy adeiladu ar arbenigedd presennol yn y rhanbarth drwy dargedu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu yn cefnogi anghenion hir sefydlog cefnogol.</p> <p><u>Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth</u> – anelu i adeiladu ar economi mwy cynaliadwy, bywiog a chryf o fewn y rhanbarth, datblygu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a ffyniant drwy'r amgylchedd a thirwedd.</p>	

Roedd gan aelodau ddiddordeb mewn deall sut mae'r Fargen Dwf yn bwriadu hybu'r economi sylfaenol o fewn lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae Gogledd Cymru yn parhau i wynebu materion sylweddol yn y gweithlu, gan fethu denu i swyddi cyflog uchel gyda BIPBC ac mae wedi herio BUEGC i gwestiynu effaith y mentrau ar wasanaethau sector cyhoeddus.

Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r angen i fod yn realistig o ran beth ellir ei gyflawni o dan y Fargen Dwf gyda £240miliwn o gynnig ariannol ddim digon i gyflawni holl faterion yn y rhanbarth ac i drawsnewid yr economi. Bydd BUEGC yn parhau i leisio pryder fel rhanbarth ar y buddsoddiad ychwanegol sy'n ofynnol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a hybu holl gyfleoedd ym mhob maes gwaith.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y £240miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn unig. Byddai angen arian refeniw i gymell effaith o fewn yr arena sgiliau a chyflogaeth. Mae BUEGC yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Sgiliau Gogledd Cymru i gysylltu sgiliau a galw yn y dyfodol i fuddsoddiad cyfalaf. Mae asesiad ansawdd ac effaith yn cael ei gwblhau ar bob lefel o'r portffolio, gan gefnogi amrywiaeth yn y gweithle. Mae effaith Brexit a Covid hefyd wedi'i ystyried ar bob prosiect unigol, ac mae'r sefyllfa yn parhau i fod yn addasadwy gydag ailbrisio parhaus y buddsoddiadau a wneir.

Diolchodd y cadeirydd i AW am y wybodaeth ddiweddaraf ar Fargen Dwf BUEGC.

**4.** Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB) yng Ngogledd Cymru/Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) - Catrin Roberts  
Derbyniodd y Bwrdd adroddiad cynnydd gan CR ar baratoi dogfennau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu'r galw am anghenion gofal a chefnogaeth eu poblogaeth leol drwy Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, erbyn Ebrill 2022 ac i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ystyried digonolrwydd a sefydlogrwydd cyflenwad wrth fodloni'r galw hwnnw drwy Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad erbyn Mehefin 2022; drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn darparu cymorth rheoli prosiect ar gyfer yr elfennau rhanbarthol, wrth ddatblygu templedi, trefnu grwpiau rhanbarthol i ddarparu cefnogaeth gan gymheiriaid i swyddogion arweiniol lleol, adolygu a chlustnodi data y gellid eu defnyddio ar gyfer yr adroddiadau lleol, a dod â phopeth ynghyd ar ffurf asesiad o anghenion y boblogaeth yn gyffredinol ac adroddiad o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer ardal gyfan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd pob awdurdod lleol yn gwneud asesiad o anghenion y boblogaeth a llunio adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer eu hardaloedd hwy.

Mae gwaith a gwblhawyd rhwng Mawrth a Mai 2021 yn cynnwys:

- Ffurio grŵp llywio gan gynnwys aelodau o'r chwe awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru; cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 11 Mai.

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu timau prosiect lleol gan gynnwys gweithwyr yr awdurdodau lleol a chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.</li> <li>• Datblygu templedi i'r timau prosiect lleol eu defnyddio wrth wneud eu hasesiadau lleol o anghenion y boblogaeth a llunio'u hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.</li> <li>• Sefydlu system ranbarthol ar gyfer rhannu ffeiliau drwy SharePoint a dechrau creu llyfrgell o wybodaeth a data at ddefnydd y timau lleol.</li> <li>• Dechrau gweithio'n rhanbarthol wrth gefnogi'r asesiadau, gan gynnwys diweddarau data rhanbarthol a chasglu canfyddiadau yn deillio o weithgarwch ymgysylltu.</li> <li>• Creu cysylltiadau â'r timau hynny sy'n datblygu Asesiadau Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys cydweithio wrth gasglu canfyddiadau'n deillio o waith ymgysylltu a defnyddio data, cyrchu adroddiadau a rhannu gwybodaeth allweddol.</li> </ul> <p>Blaenoriaethau ar gyfer Mehefin – Awst 2021 yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dal i gefnogi'r timau lleol wrth gasglu data, adroddiadau a gwybodaeth</li> <li>• Hwyluso'r drefn o rannu gwybodaeth rhwng y timau lleol wrth iddynt lunio eu hadroddiadau, a hwyluso cefnogaeth gan gymheiriaid</li> <li>• Cydlynu'r gwaith ymgysylltu â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr er mwyn adnabod cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu rhanbarthol, isranbarthol a lleol</li> <li>• Dal i gydlynu'r cysylltiadau rhwng yr Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth a'r Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad a'r gwaith y mae timau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud ar yr Asesiadau Llesiant</li> </ul> <p>Hysbysodd CR am y gwaith cwmpasu, deall y ddarpariaeth eisoes ar waith a'r gofynion ar draws y rhanbarth sy'n ddarn o waith sylweddol, a bydd cydweithwyr rhanbarthol ar gael i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y broses gyfan. Y bwriad yw cwblhau adroddiadau lleol erbyn Tachwedd 2021, i ganiatau digon o amser i bartneriaid fynd â'r adroddiad drwy eu proses lywodraethu.</p> <p>Unwaith y bydd dogfennau wedi eu cwblhau, bydd yna raglen ar waith i sicrhau adolygiad rheolaidd o ddata ac ystyried unrhyw wybodaeth na ystyriwyd yn ystod y cam cwmpasu cyntaf.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i CR am yr adroddiad cynnydd AAB/ASF.</p>	
5.	<p><u>Adroddiad Blynyddol Canolbwynt Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant Gogledd Cymru 2020-21</u></p> <p>Cyflwynodd CR Adroddiad Blynyddol cyntaf Canolbwynt Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant, oedd yn cynnwys y flwyddyn lawn gyntaf yn y gwasanaeth.</p> <p>Cafodd y Tîm Canolbwynt RIIC ei lansio ym mis Mai 2020 ar ddechrau'r pandemig ac o ganlyniad cafodd y tîm ei adleoli yn uniongyrchol i gefnogi Covid-19. Mae'r tîm wedi cyflawni llawer yn ystod y 12 mis diwethaf ac mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad cyflym o effaith Covid-19 ar bobl sydd arnynt angen gofal a chymorth, gan gynnwys arloesi mewn gwasanaethau.</li> <li>• Cefnogi prosiectau trawsnewid a phrosiectau Cronfa Gofal Integredig</li> </ul>	

	<p>i ddefnyddio tystiolaeth drwy gynnal chwiliadau o ddeunydd darllen, darparu cyngor a chefnogaeth gyda chreu arolygon ar-lein, dadansoddi data a dulliau ymchwil ar gyfer adrodd hanes.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i edrych ar y defnydd o dystiolaeth o fewn gofal cymdeithasol</li> <li>• Trefnu Labordy Arloesi Gofal Cymdeithasol gyda Phrifysgol Bangor a oedd yn canolbwyntio ar dechnoleg ddigidol a Labordai Byw gyda'r Asiantaeth Arloesi.</li> <li>• Hyrwyddo digwyddiadau, cyfleoedd ariannu a gwaith y tîm ar ein gwefan, ein cyfrif Twitter a thrwy newyddlenni rheolaidd dros e-bost. Mae hynny'n cynnwys trydar yn fyw yn ystod digwyddiadau allweddol yn y rhanbarth</li> </ul> <p>Mae gwaith a drefnwyd ar gyfer 2021-2022 yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi gwaith o ran asesiad o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad.</li> <li>• Parhau i fapio gweithgareddau ymchwil, arloesi a gwelliant ar draws gogledd Cymru ac asesu i ba raddau y maen nhw'n cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.</li> <li>• Datblygu strategaeth ymchwil, arloesi a gwella</li> <li>• Parhau i gefnogi'r rhaglen drawsnewid a chynorthwyo partneriaid eraill i ddatblygu eu gweithgareddau ymchwil, arloesi a gwelliant.</li> <li>• Parhau i ddatblygu'r wefan i sicrhau bod holl adnoddau yn hygyrch i'r gymuned ehangach.</li> <li>• Datblygu adroddiad yn ystyried cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth Canolbwynt RIIC</li> </ul> <p>Diolchodd y cadeirydd i CR am y diweddariad cynhwysfawr ar Adroddiad Blyneddol Canolbwynt RIIC.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>Diweddariad ar waith adfer BIPBC</u></p> <p>Rhoddodd MWil ddiweddariad byr ar waith adfer BIPBC. Roedd cydweithwyr BIPBC yn nodi cymhlethdod wrth ganolbwyntio ar adferiad tra hefyd yn delio gyda'r cynnydd mewn achosion Covid a welir o fewn lleoliadau yn y gymuned.</p> <p>Roedd MWil yn canolbwyntio'r diweddariad ar 4 Niwed Covid: Niwed o Covid ei hun – mae'r cynnydd diweddar o Covid yn y gymuned yn parhau'n bryder i'r system lechyd a Gofal Cymdeithasol, gan effeithio ar absenoldeb staff a gofal sylfaenol. Er yn nifer gymharol fach, bydd hyn yn cael mwy o effaith ar y gallu i ddarparu gwasanaethau eraill o fewn y system. Nodwyd pryder hefyd yn ymwneud â'r nifer sylweddol o ymwelwyr a ddisgwylir yng Ngogledd Cymru yn ystod y misoedd nesaf ac fel sut y bydd hyn yn rhoi pwysau gormodol ar y system.</p> <p>Niwed o system GIG a Gofal Cymdeithasol wedi'i lethu – mewn perthynas â'r ffliw/feirws a ragwelir yn ystod y gaeaf 21/22. Er bod Enfys Bangor a Llandudno yn y broses o gael eu datgomisiynu, bydd Enfys Glannau Dyfrdwy yn parhau tan fis Mawrth 2022, ac yn cael ei ddefnyddio i weinyddu'r pigiad atgyfnerthu dros y misoedd nesaf ac fel lleoliad wrth gefn ar gyfer cynnydd posibl dros gyfnod y gaeaf.</p> <p>Niwed o ostyngiad mewn gweithgaredd arall – mae rhestrau aros wedi cynyddu'n sylweddol dros y 18 mis diwethaf ac er bod amseroedd aros yn statig yn gyffredinol, y ffactor cyfyngus presennol yw recriwtio'r gweithlu.</p>	

Niwed o weithgaredd anghymdeithasol ehangach/cyfnod clo – cam cynllunio cynnar ar gyfer cyllid lechyd Meddwl, gyda chynnydd i'w weld mewn atgyfeiriadau iechyd meddwl oedolion wedi'i gyfuno gyda chyfyngiadau cymhwyster, yn cael effaith ar asesiadau amserol. Mae Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (GIMPO) a newro ddatblygiad yn derbyn blaenoriaeth, mae perfformiad yn her o fewn y 28 diwrnod o asesiad.

Roedd LR yn nodi pryder gyda'r cynnydd disgwylidig mewn ymwelwyr yn y rhanbarth o ardaloedd sydd eisoes wedi ymlacio eu cyfyngiadau, bydd ymwelwyr angen deall bod cyfyngiadau yn parhau ar waith yng Ngogledd Cymru. Mae'r mwyafrif o gleifion yn yr ysbyty gyda Covid ar hyn o bryd yn bennaf yn unigolion sydd heb dderbyn brechlyn, gan atgyfnerthu gwerth y rhaglen frechu, gyda BIPBC yn parhau i atgyfnerthu'r neges i'r cymunedau ehangach sy'n anodd eu cyrraedd, bod pawb angen eu brechu ar gyfer adferiad llwyddiannus.

Roedd Cyng BF yn nodi pryder mewn perthynas â'r 3 mater:

1. Yr ôl-groniad o atgyfeiriadau o fewn GIMPO, mewn perthynas â'r cynnydd diweddar mewn plant a phobl ifanc yn dangos materion ymddygiad ac iechyd meddwl o ganlyniad i'r cyfnod clo a'r pandemig. Roedd BEJ yn rhoi sicrwydd ynglŷn ag ôl-groniad atgyfeiriadau GIMPO a chadarnhaodd bod holl atgyfeiriadau brys yn cael eu gweld ar unwaith. Roedd y rhestr aros dros 28 diwrnod yn parhau i dyfu, gyda chynlluniau ar waith i gomisiynu contract allanol i gefnogi'r ffrwd waith a chyflawni'r mesur lechyd Meddwl. Mae Gogledd Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau ers i blant ddychwelyd i'r ysgol, yn arbennig yn ystod y 2 fis diwethaf, gyda chynnydd o fewn yr adran achosion brys gyda hunan-niwed o ganlyniad i fethiant lleoliad. Yn ogystal, mae caffael y gweithlu, gyda phrinder unigolion arbenigol hefyd yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaeth. Mae BIPBC yn gweithio gyda ALI i gyflenwi staff sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol ar weithio gyda phlant a phobl ifanc a datblygu a chefnogi'r daith tuag at welliant.
2. Nodwyd bod 25% o'r boblogaeth wedi'u heintio gyda Covid tra'n aros yn yr ysbyty a gofynnwyd sut byddai'r sector GIG yn ymdrechu i wneud pob ymdrech i atal haint yn y dyfodol. Roedd MWil yn cydnabod bod rhai cleifion yn anffodus wedi'u heintio gyda Covid tra yn yr ysbyty, ni fyddai MWil yn gwneud sylw ar ffigur BIPBC ac roedd yn credu bod y ffigur 25% ar gyfer Cymru gyfan. Er bod yr haint o fewn pob un o'r 3 phrif ysbyty yn achosi pryder, gyda gwersi a ddysgwyd, mae mesurau rheoli ac atal haint ychwanegol wedi eu cymryd ar draws pob safle i liniaru a chyfyngu lledaeniad Covid.
3. Beth yw cynigion BIPBC ar gyfer cyfathrebu gyda'r cyhoedd i sicrhau bod gwasanaethau BIPBC yn ailddechrau ac i leddfu pryderon sy'n ymwneud â materion iechyd. Dywedodd MWil fod BIPBC yn rhagweithiol o ran cyfathrebu gyda chleifion, dilysu rhestrau aros a gweithio drwy ofal cychwynnol, gan fod yn ymwybodol bod angen gwneud mwy o waith ynglŷn â chyfathrebu.

	Hysbysodd EH y bwrdd am ymgyrch Llywodraeth Cymru 'Ein Helpu Ni i'ch Helpu Chi'. Mae'r pandemig wedi darparu cyfleoedd sylweddol i symleiddio gwasanaethau GIG a bydd yr ymgych 'Ein Helpu Ni i'ch Helpu Chi' yn dechrau newid ymddygiad sy'n ofynnol mewn perthynas â gwasanaethau GIG yn y dyfodol.	
7.	<p><u>Nodiadau a chymau gweithredu'r cyfarfod diwethaf - Mehefin 2021</u></p> <p>Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 11.6.2021 yn gywir a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cymryd.</p> <p>Manteisiodd y cadeirydd ar y cyfle i ddiolch yn ffurfiol i'r Cyng Joan Lowe, sydd wedi camu i lawr o CBSW yn ddiweddar am fod yn aelod hir sefydlog o'r BPRhGC. Hefyd, diolchodd y cadeirydd i JGI am ei gyfraniad i'r bwrdd yn y 2 flynedd ddiwethaf.</p> <p>Roedd JGI yn dymuno'n dda i'r bwrdd am y gwaith a wnaed ar draws Gogledd Cymru.</p>	
8.	Unrhyw fusnes arall – dim byd i'w adrodd	
9.	<p>Cafodd y ddogfen ganlynol ei chynnwys er gwybodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Newyddlen Mehefin BPRhGC</li> </ul>	
	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</b></p> <p>Dydd Gwener, 10 Medi 2021 9:00 – 12:00</p>	